

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mawrth

O fis Ebrill i fis Medi

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r modiwl hwn yna adeiladu ar y sgiliau a'r wybodaeth a gyflwynwyd yn T192 *Peirianeg: tarddiadau, dulliau, cyd-destun*. Mae hanner cyntaf y modiwl yn canolbwyntio ar ymyrraeth ac arloesedd a'r fframweithiau ymgynghorol neu ddeddfwriaethol sydd ar waith i hyrwyddo arfer da er mwyn sicrhau diogelwch. Caiff pynciau peirianeg a mathemateg eu cyflwyno drwy archwilio patentau a safonau a dadansoddiad manwl o astudiaeth achos sy'n canolbwyntio ar ddisodli tanwyddau ffosil ag ynni sy'n dod o olau'r haul. Mae ail hanner y modiwl yn edrych ar ddulliau gweithgynhyrchu modern, ac yn mynd i'r afael â'r ffordd y mae'r rhain yn gysylltiedig ag egwyddorion deunyddiau, cynllunio cynnyrch, cynaliadwyedd amgylcheddol a phroffidioldeb.

Caiff technegau mathemategol eu haddysgu mewn cyd-destun peirianeg, gan gynnwys datrys problemau lle y mae angen calcwlws sylfaenol a hafaliadau cydamserol, cwadratig a thrigonometrig. Caiff y cynnwys mathemateg ei asesu'n rheolaidd drwy ddefnyddio cwisiau ac aseiniadau rhyngweithiol a gaiff eu marcio gan gyfrifiadur (iCMA).

Yn ogystal â hyn, drwy gydol y modiwl hwn, rhoddir pwyslais sylweddol ar ddatblygu sgiliau astudio. Mae'r rhain yn cynnwys darllen technegol, adolygu cymheiriaid ac ymarfer myfyriol.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a gaiff eu nodi ym manyleb gyffredinol y person, dylech allu ddangos y canlynol:

- diddordeb a brwdfrydedd o ran addysgu peirianeg a mathemateg ar lefel 1 mewn amgylchedd ar-lein yn bennaf
- parodrwydd i ddatblygu arbenigedd yn y defnydd effeithiol o adnoddau amgylchedd dysgu rhithwir sy'n hollbwysig i'r modiwl
- tystiolaeth o hwyluso gweithgareddau grŵp effeithiol ar-lein
- tystiolaeth o ddarparu adborth o safon uchel
- parodrwydd a gallu i gynllunio a darparu gweithgareddau dysgu diddorol ym meysydd cysyniadau/cwricwlwm peirianeg a mathemateg wyneb yn wyneb ac ar-lein
- y gallu i helpu myfyrrwyr i ehangu eu sgiliau astudio
- y gallu i ddatblygu hyder a sgiliau mathemategol yn y cwricwlwm a gwmpesir gan y modiwl.

Byddai'n ddefnyddiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad diweddar o weithio mewn amgylchedd peirianeg
- profiad o diwtora ar fodiwl T192
- profiad o addysgu peirianeg a mathemateg sy'n gysylltiedig â pheirianeg i fyfyrwyr peirianeg/gwyddoniaeth
- profiad o addysgu oedolion ym maes addysg bellach, addysg uwch a/neu ddysgu o bell
- cymhwyster addysgu, neu gydnabyddiaeth broffesiynol gan sefydliad addysgu megis yr Academi Addysg Uwch
- aelodaeth o sefydliad peirianeg
- profiad o helpu myfyrrwyr gyda'r gwaith o gynllunio datblygiad personol a phroffesiynol

Gwybodaeth ychwanegol

- Darperir dysgu drwy gymysgedd o diwtorialau a fforymau wyneb yn wyneb ac ar-lein ac adnoddau eraill ar-lein, gan gynnwys stiwdio peirianeg rithwir.

Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynwyd gan y myfyriwr:	2
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	3
Oriau yr amcangyfrifir fesul wythnos addysgu:	5

Gall fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl amdano a byddwn yn cysylltu â chi ar wahân amdano os yw'n berthnasol.